PRIFYSGOL METROPOLITAN CAERDYDD TELERAU AC AMODAU ARCHEBU DIGWYDDIADAU

Dylid darllen y telerau ac amodau hyn ar y cyd â'r contract a grëwyd rhwng Prifysgol Metropolitan Caerdydd a'r Mynychwr a nodwyd ar y Ffurflen Archebu ac maent yn ffurfio rhan o'r contract hwnnw.

DIFFINIADAU Yn y telerau ac amodau hyn, bydd gan y geiriau canlynol yr ystyron canlynol:
Ystyr **"Archebwr"** fydd yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n Archebu ar ran y Mynychwr.
Ystyr **"Archeb"** fydd gwneud Archeb gan ddefnyddio manylion a ddarperir gan yr Archebwr ar y Ffurflen Archebu.
Ystyr **"Ffurflen Archebu"** fydd y ffurflen, boed yn gopi caled neu'n electronig, a ddarperir gan y Brifysgol er mwyn nodi manylion yr Archeb.
Ystyr **"Mynychwr"** fydd yr unigolyn neu'r unigolion sy'n mynychu'r Digwyddiad.
Ystyr **"Digwyddiad"** fydd y digwyddiad a nodwyd ar ddeunydd hyrwyddo perthnasol a'r Ffurflen Archebu.
Ystyr **"Prifysgol"** fydd Prifysgol Metropolitan Caerdydd.
Ystyr **"Lleoliad"** fydd lleoliad penodol lle cynhelir y Digwyddiad a bydd hefyd yn cynnwys holl gampws perthnasol y Brifysgol.

Yn y telerau ac amodau hyn, bydd yr unigol yn golygu'r lluosog a'r lluosog yr unigol.

1. YR ARCHEB

a) Bydd yr Archebwr yn cwblhau'r Archeb briodol ar gyfer y Digwyddiad yn llawn ac yn briodol a chyflwyno'r Ffurflen Archebu i'r Brifysgol yn y modd a ragnodir ar y Ffurflen Archebu. Bydd y Brifysgol yn cyfleu derbyn yr Archeb trwy e-bost i'r Archebwr.

b) Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl yn ôl ei disgresiwn yn unig i beidio â derbyn unrhyw Archeb, a gall peidio â derbyn gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, unrhyw achos lle y gellid rhagori ar y nifer uchaf o Fynychwyr.

2. AMRYWIADAU I'R ARCHEB

a) Rhaid i'r Archebwr hysbysu'r Brifysgol am unrhyw newidiadau i'r Archeb, megis, ond nid yn gyfyngedig i, enwau neu nifer y Mynychwyr, gofynion dietegol, dim llai na deg (10) diwrnod cyn y Digwyddiad. Bydd y Brifysgol yn defnyddio pob ymdrech resymol i ddarparu ar gyfer unrhyw newidiadau y gofynnir amdanynt gan yr Archebwr ond ni all dderbyn unrhyw gostau neu atebolrwydd am unrhyw anallu i gwrdd ag unrhyw newidiadau lle derbynnir llai na 10 diwrnod o rybudd.

b) Mewn unrhyw ddigwyddiad ble bydd angen unrhyw newidiadau i'r Archeb ar gais yr Archebwr neu lle mae mwy o Fynychwyr yn mynychu'r Digwyddiad nag sydd ar y Ffurflen Archebu, bydd y Brifysgol yn codi tâl ychwanegol ar yr Archebwr am yr holl gostau a ysgwyddir ar gyfradd gyfredol berthnasol y Brifysgol.

c) Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i newid amser neu leoliad y Digwyddiad neu i ganslo Digwyddiad lle mae gan y Brifysgol resymau masnachol neu weithredol rhesymol i wneud hynny. Mewn unrhyw ddigwyddiad o'r fath, bydd y Brifysgol yn ceisio rhoi hysbysiad rhesymol ymlaen llaw i'r Mynychwr am unrhyw newid o'r fath ac mewn achosion o ganslo, rhoi ad-daliad llawn.

3. **TALIAD.** DS Pan fo unrhyw Ddigwyddiad yn rhad ac am ddim i fynychu, ni fydd darpariaethau'r cymal hwn yn gymwys.

a) Bydd pris mynychu'r Digwyddiad fel y nodir ar y Ffurflen Archebu a / neu ar unrhyw ddeunydd hyrwyddo

b) Rhaid talu'r Archeb yn llawn i'r Brifysgol o fewn 14 diwrnod ar ôl i'r Brifysgol gydnabod derbyn yr Archeb. Pan dderbynnir taliad ar ôl y cyfnod talu 14 diwrnod, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ganslo'r Archeb ac ad-dalu'r taliad yn llawn.

c) Ni fydd unrhyw Archeb sy'n cael ei ganslo gan yr Archebwr gyda llai na 21 diwrnod gwaith cyn dyddiad y Digwyddiad yn gymwys am unrhyw ad-daliad.

ch) Bydd unrhyw Archeb sy'n cael ei ganslo gan y Brifysgol yn ddarostyngedig i ad-daliad llawn, a bydd y Brifysgol yn ei ddosbarthu heb oedi gormodol.

d) Mewn unrhyw achos lle mae'r Brifysgol yn penderfynu nad oes modd defnyddio unrhyw leoliad a hysbysebwyd ar gyfer Digwyddiad oherwydd tywydd garw neu unrhyw reswm arall y tu allan i reolaeth resymol y Brifysgol, bydd y Brifysgol yn defnyddio pob ymdrech resymol i ddarparu lleoliad arall neu ail-drefnu'r Digwyddiad.

4. PRESENOLDEB YN Y DIGWYDDIAD

a) Wrth fynychu Digwyddiad, mae'r Mynychwr yn ymgymryd i:

1. peidio â gwisgo neu ymddwyn mewn modd amhriodol, annymunol, gwahaniaethol neu dramgwyddus
2. cydymffurfio â rheolau a rheoliadau'r Lleoliad
3. cydymffurfio â chyfarwyddiadau rhesymol staff y Brifysgol a phobl eraill sy'n ymwneud â threfnu neu gynnal y Digwyddiad
4. peidio â chymryd unrhyw ffotograffau na chynhyrchu delweddau digidol o'r Digwyddiad heb ganiatâd penodol y Brifysgol ymlaen Llaw
5. Ni chaniateir unrhyw anifeiliaid anwes ar safleoedd y Brifysgol ac eithrio Cŵn tywys neu gŵn cymorth eraill.

b) Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dynnu allan ac eithrio unrhyw Fynychwr o'r Digwyddiad neu'r Lleoliad lle mae'r Brifysgol yn credu'n rhesymol nad yw'r Mynychwr wedi cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y cymal hwn.

c) Mewn unrhyw achos lle mae'r Brifysgol wedi diarddel Mynychwr, ni fydd y Brifysgol yn atebol i'r Archebwr na'r Mynychwr am unrhyw gostau na cholledion nac am unrhyw fath o iawndal. Ar ben hyn, mae'r Mynychwr drwy hyn yn indemnio'r Brifysgol yn erbyn unrhyw gostau, gweithredoedd, colledion neu iawndal a gafwyd gan y Brifysgol sy'n deillio o unrhyw waharddiad neu gais neu eithrio, gan gynnwys unrhyw gostau sy'n deillio o atal, ail-drefnu neu derfynu'r Digwyddiad neu am unrhyw golled neu ddifrod i eiddo'r Brifysgol neu'r Lleoliad.

5. CYFRIFOLDEB AC ATEBOLRWYDD

a) Ni all y Brifysgol dderbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw fethiant offer neu ddiffyg argaeledd unrhyw wasanaethau na chyfleustodau nac unrhyw reswm arall y tu allan i'w reolaeth resymol a allai achosi nad yw'r Lleoliad ar gael.

b) Oddi eithr fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, mae'r Brifysgol yn eithrio pob atebolrwydd am farwolaeth neu anaf personol.

c) Ni fydd gan y Brifysgol unrhyw rwymedigaeth am unrhyw gostau uniongyrchol, anuniongyrchol, colledion, treuliau p'un bynnag sy'n codi o'r Digwyddiad neu unrhyw agwedd ar berfformiad y contract hwn.

ch) Ni all y Brifysgol dderbyn cyfrifoldeb neu atebolrwydd am unrhyw ddifrod i unrhyw arian, eitemau gwerthfawr, dillad nac eiddo unrhyw Fynychwr. Gadewir pob eitem ar fenter y Mynychwr ei hun.

d) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r cymal 5 hwn, cyfyngir cyfanswm atebolrwydd y Brifysgol, boed hynny mewn contract, camwedd, cam-gynrychioliad neu sy'n codi fel arall o'r perfformiad, perfformiad arfaethedig, canslo, terfynu neu ddiffyg perfformiad y Digwyddiad yn gyfyngedig i gost sy'n gyfartal â chost unigol y Mynychwr am fynychu'r Digwyddiad.

1.**DIOGELU DATA**
a) Dim ond ar gyfer y dibenion a nodir yn y ffurflen gais y byddwn yn prosesu eich data personol ac yn unol â deddfwriaeth gyfredol Diogelu Data. Cedwir y data yn ddiogel ac ni fyddwn yn trosglwyddo'ch manylion personol i unrhyw drydydd parti heb eich caniatâd. Mae rhagor o wybodaeth am sut y gallwch chi ymarfer eich hawliau unigol o dan y ddeddfwriaeth Diogelu Data, ynghyd â manylion cyswllt ein Swyddog Diogelu Data, i'w gweld ar ein gwefan.

2.**IECHYD A DIOGELWCH**
a) Arddangosir hysbysiadau rhagofalon tân ym mhob adeilad yn y Brifysgol ac mae'n gyfrifoldeb y Mynychwr i ymgyfarwyddo â'r hysbysiadau cyfarwyddyd hyn. Ni ddylid anwybyddu larymau tân dan unrhyw amgylchiadau.

3.**POLISÏAU A GWEITHDREFNAU'R BRIFYSGOL**
a) Bydd y Mynychwr yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio bob amser â pholisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, barcio ceir a dim ysmygu heblaw mewn ardaloedd dynodedig.
b) Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dynnu lluniau neu greu delweddau digidol mewn unrhyw ddigwyddiad, ond dim ond at ddibenion marchnata oni bai y cynghorir fel arall.